**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**RHEOLIADAU MEWN PERTHYNAS Â CHASGLIADAU STRYD**

Mae'r rheoliadau canlynol mewn grym mewn perthynas â'r mannau a'r amodau lle gellir caniatáu i bersonau mewn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus o fewn y Fwrdeistref Sirol gasglu arian neu werthu eitemau er budd dibenion elusennol neu eraill:-

1. Yn y rheoliadau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall:-

   Mae "casgliad" yn golygu casglu arian neu werthu eitemau er budd dibenion elusennol neu eraill a bydd y gair "casglwr" yn cael ei ddehongli yn unol â hynny;

   Mae "hyrwyddwr" yn golygu person sy'n peri i eraill weithredu fel casglwyr;

   Mae "cyfrannwr" yn golygu person sy'n cyfrannu at gasgliad ac yn cynnwys prynwr eitemau sydd ar werth er budd dibenion elusennol neu eraill;

   Mae "blwch casglu" yn golygu blwch neu gynhwysydd arall ar gyfer derbyn arian gan gyfranwyr.

2. Ni ddylid gwneud unrhyw gasgliad, ac eithrio casgliad a gymerir mewn cyfarfod yn yr awyr agored, mewn unrhyw stryd na man cyhoeddus yn y Fwrdeistref oni bai fod yr hyrwyddwr wedi cael hawlen gan y Cyngor.

3. Dylai cais am hawlen gael ei wneud yn ysgrifenedig heb fod yn hwyrach nag un mis cyn y dyddiad y bwriedir gwneud y casgliad.

4. Ni ddylid gwneud unrhyw gasgliad ac eithrio ar y diwrnod a rhwng yr oriau a nodir yn yr hawlen.

5. Wrth roi hawlen, gall y Cyngor gyfyngu casgliadau i strydoedd neu fannau cyhoeddus neu rannau ohonynt fel y barno'n ddoeth.

6.
   (1) Ni chaiff unrhyw berson gynorthwyo na chymryd rhan mewn unrhyw gasgliad heb awdurdod ysgrifenedig gan hyrwyddwr.

   (2) Dylai unrhyw berson a awdurdodwyd dan baragraff (1) uchod ddangos awdurdod ysgrifenedig o'r fath ar unwaith i gael ei archwilio os yw un o swyddogion y Cyngor sydd wedi'i awdurdodi'n briodol yn gofyn iddo wneud hynny.

7. Ni ddylid gwneud unrhyw gasgliad mewn unrhyw ran o'r ffordd gerbydau ar unrhyw stryd sydd â llwybr troed; gyda'r amod y gall y Cyngor, os yw'n barnu bod hynny'n ddoeth, ganiatáu casgliad a awdurdodwyd mewn cysylltiad â gorymdaith.

8. Ni ddylid gwneud unrhyw gasgliad mewn modd sy'n debygol o achosi anhwylustod neu gythrudd i unrhyw berson.

9. Ni ddylai unrhyw gasglwr blagio unrhyw berson er cythrudd i'r person hwnnw.

10. Wrth gasglu;

    (1) dylai casglwr aros yn llonydd, ac

    (2) ni ddylai casglwr neu ddau gasglwr gyda'i gilydd fod yn agosach na 25 metr at gasglwr arall; gyda'r amod y gall y Cyngor, os yw'n barnu bod hynny'n ddoeth, hepgor gofynion y rheoliad hwn mewn perthynas â chasgliad a awdurdodwyd mewn cysylltiad â gorymdaith.

11. Ni ddylai unrhyw hyrwyddwr, casglwr na pherson sy'n gysylltiedig fel arall â chasgliad ganiatáu i berson dan un ar bymtheg oed weithredu fel casglwr.

12.
    (1) Dylai pob casglwr gario blwch casglu.

    (2) Dylai'r holl flychau casglu fod wedi'u rhifo'n olynol a dylent gael eu cau'n ddiogel a'u selio mewn ffordd sy'n eu hatal rhag cael eu hagor heb dorri'r sêl.

    (3) Dylai'r holl aran y mae casglwr wedi'i gael gan gyfranwyr gael ei roi mewn blwch casglu ar unwaith.

    (4) Dylai pob casglwr ddanfon pob blwch casglu sydd yn ei feddiant at hyrwyddwr a hynny heb iddynt fod wedi cael eu hagor.

13. Ni ddylai casglwr gario na defnyddio blwch casglu, cynhwysydd na hambwrdd nad yw enw'r elusen neu'r gronfa sy'n mynd i elwa o'r casgliad yn cael ei arddangos yn amlwg arno nac unrhyw flwch casglu nad yw wedi'i rifo'n briodol.

14.
    (1) Yn amodol ar baragraff (2) isod dylai blwch casglu gael ei agor yng ngŵydd hyrwyddwr a pherson cyfrifol arall.

    (2) Lle caiff blwch casglu ei ddanfon, heb ei agor, i fanc, gall gael ei agor gan un o swyddogion y banc.

    (3) Cyn gynted ag y mae blwch casglu wedi cael ei agor, dylai'r sawl sy'n ei agor gyfrif y cynnwys a dylai nodi'r swm ynghyd â rhif y blwch casglu ar restr a ddylai gael ei ardystio gan y person hwnnw.

15.
    (1) Ni ddylid rhoi taliad i unrhyw gasglwr.

    (2) Ni ddylid rhoi taliad allan o enillion casgliad, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw berson sy'n gysylltiedig â hyrwyddo neu weithredu casgliad o'r fath am wasanaethau, neu mewn perthynas â gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag ef, ac eithrio taliadau a gymeradwywyd gan y Cyngor.

16.

(1) O fewn un mis i ddyddiad unrhyw gasgliad dylai'r sawl y rhoddwyd hawlen iddo anfon y canlynol i'r Cyngor:

(a) datganiad ar y ffurf a nodir yn yr Atodlen i'r rheoliadau hyn, neu ar ffurf debyg, yn dangos y swm a dderbyniwyd a'r treuliau a'r taliadau a ysgwyddwyd mewn cysylltiad â'r casgliad hwnnw ac a ardystiwyd gan y person hwnnw a chyfrifydd cymwysedig;

(b) rhestr o'r casglwyr;

(c) rhestr o'r symiau a oedd wedi'u cynnwys ym mhob blwch casglu; ac, os yw'r Cyngor yn gofyn iddo wneud hynny, dylai ei argyhoeddi ynghylch defnydd priodol o'r casgliad.

(2) Dylai'r dywededig berson hefyd, o fewn yr un cyfnod, ar draul y person hwnnw ac wedi i gyfrifydd cymwysedig roi ei dystysgrif dan baragraff (1) (a) uchod, gyhoeddi ym mha bynnag bapur newydd neu bapurau newydd a gyfarwyddir ganddynt ddatganiad sy'n dangos enw'r sawl y rhoddwyd yr hawlen iddo, yr ardal y mae'r hawlen yn gysylltiedig â hi, enw'r elusen neu'r gronfa a fydd yn elwa o'r casgliad, dyddiad y casgliad, y swm a gasglwyd a swm y treuliau a'r taliadau a ysgwyddwyd mewn cysylltiad â'r casgliad hwnnw.

(3) Os yw'r Cyngor wedi'i argyhoeddi bod rhesymau arbennig dros wneud hynny, gall ymestyn y cyfnod o un mis y cyfeirir ato ym mharagraff (1) uchod.

(4) At ddiben y rheoliad hwn mae "cyfrifydd cymwysedig" yn golygu aelod o un neu fwy o'r cyrff canlynol:-

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr;

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban;

Cymdeithas y Cyfrifwyr Siartredig;

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon.

17. Ni fydd y rheoliadau hyn yn gymwys:-

(1) mewn perthynas â chasgliad a wneir mewn cyfarfod yn yr awyr agored; nac

(2) mewn perthynas â gwerthu eitemau mewn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus lle caiff yr eitemau eu gwerthu fel rhan arferol o fasnach.

18. Gall unrhyw berson sy'n gweithredu'n groes i unrhyw un o'r rheoliadau uchod, o'i gael yn euog trwy gollfarn ddiannod, gael dirwy nad yw'n uwch na £200.00 (DAU GAN PUNT).